
Hijinx
Gŵyl Undod
Unity Festival
3-7 Gorffennaf | July
Mewn partneriaeth â
In partnership with
CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE
AD
BSL
attitude
is everything
"BRINGS TOGETHER SOME OF THE BEST INCLUSIVE ARTS FROM AROUND THE WORLD"
THE GUARDIAN
hijinx.org.uk
Ffotograff gan Oliver Crawford o Chloe Loftus a Rodney Bell yng ngŵyl gelfyddyd stryd CubaDupa, Seland Newydd
Photo by Oliver Crawford of Chloe Loftus & Rodney Bell at CubaDupa street arts festival, NZ

# CROESO | WELCOME



**Ben Pettitt-Wade**

Cyfarwyddwr Artistig Hijinx a Gŵyl Undod

Artistic Director of Hijinx and Unity Festival

Hijinx

Croeso i Ŵyl Undod Hijinx, ein dathliad bob dwy flynedd o gelfyddydau cynhwysol ac anabledd. Eleni mae gennym artistiaid yn teithio i Gymru o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, Ewrop, Brasil a Seland Newydd i gyflwyno rhaglen sy'n cynnwys dawns, theatr, syrcas, celfyddydau gweledol ac arddangosfeydd digidol.

Am y tro cyntaf byddwn yn llunio partneriaeth â Gŵyl Bwyd a Diod Caerdydd, felly gallwch fachu rhywbeth blasus i'w fwyta tra byddwch yn mwynhau rhaglen y penwythnos.

Diolch yn anferthol i'n tîm gwych o staff a gwirfoddolwyr yn Hijinx sydd wedi treulio misoedd yn cynllunio'n ofalus ac a fydd yn gweithio'n ddiflino yn ystod yr wythnos i sicrhau bod y digwyddiad yn brofiad gwych i'n cynulleidfaoedd a'n hartistiaid – os gwelwch chi rai ohonom yn ein crysau T pinc neu oren cofiwch ddweud helo. A diolch fel arfer i'n cyllidwyr, noddwyr, cefnogwyr a'n hartistiaid, wrth gwrs – rydym ni i gyd yn edrych ymlaen at eich croesawu i Ŵyl Undod 2024!

Welcome to the Hijinx Unity Festival, our biennial celebration of inclusive and disability arts. This year we have artists travelling to Wales from throughout the UK, Europe, Brazil and New Zealand to present a programme that includes dance, theatre, circus, visual arts and digital exhibitions.

For the first time we will be partnering with the Cardiff Food and Drink Festival, so you can grab something delicious to eat while you enjoy the weekend programme.

Huge thanks go out to our brilliant Hijinx team of staff and volunteers who have spent months meticulously planning and will be working flat out during the week to ensure the event is a brilliant experience for both our audiences and artists – if you see any of us in our pink or orange t-shirts be sure to say hello. And thanks as ever to our funders, sponsors, supporters and of course our artists – we all look forward to welcoming you to Unity Festival 2024!



@HijinxTheatre

#UnityFestival #GŵylUndod

Diolch anferthol i'n holl arianwyr Undod, gan gynnwys Grant Stephens Family Law sy'n noddi rhaglen Caerdydd eleni, ac Arts and Business Cymru y bydd eu cyllid ychwanegol trwy CultureStep yn cefnogi ein darpariaeth hygyrchedd (BSL a Sain Ddisgrifio) dros benwythnos Caerdydd.

Huge thanks to all of our Unity funders, including Grant Stephens Family Law who are sponsors of this year's Cardiff programme, and Arts and Business Cymru whose additional funding through Culture Step will support our access provision (BSL and AD) over the Cardiff weekend.

*"Mae Grant Stephens Family Law yn falch iawn o gefnogi Gŵyl Undod Hijinx. Fel cwmni o Gymru, rydym yn falch iawn o noddi elusen leol sy'n cyflawni gwaith mor wych. Bydd y cydweithio hwn yn cefnogi perfformiadau a chynyrchiadau rhyfeddol yn cynnwys artistiaid talentog ag anabledd dysgu ac awtistiaeth. Trwy gefnogi Hijinx, rydym yn cyfrannu at gymuned gelfyddydol fwy cynhwysol sy'n cael ei dathlu trwy berfformio."*

Gair gan ein noddwyr Gŵyl Undod yng Nghaerdydd, Grant Stephens Family Law

*"Grant Stephens Family Law is immensely proud to support Hijinx's Unity Festival. As a Welsh-based firm, we are thrilled to back a local charity that carries out fantastic work. This collaboration will support performances and amazing productions featuring talented learning disabled and autistic artists. By supporting Hijinx, we are contributing to a more inclusive arts community celebrated through performance."*

A word from our sponsors of Unity Festival in Cardiff, Grant Stephens Family Law

CANOLFAN MILENIWM CYMRU WALES MILLENNIUM CENTRE

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

GRANT STEPHENS FAMILY LAW

Arts & Business Cymru

Colwinston Charitable Trust

# SKIN, MUSCLE & BONE
# PELE, MÚSCULO & OSSO

Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru
Weston Studio, Wales Millennium Centre

3 Gorffennaf | July, 8pm

Chris Tally Evans

Dança sem Fronteiras

Trwy gyfuno iaith theatr-dawns â cherddoriaeth a seinwedd, ynghyd â gweithredu Chris Tally Evans dros anabledd, mae'r perfformiad hwn yn gweld cefn gwlad a'r concrid yn gwrthdaro mewn crochan traws-ddiwylliannol o seiniau a'r gweledol.

Cymraeg, Saesneg + Portwgeeg Brasil

Fusing the languages of dance-theatre, music and soundscape with Chris Tally Evans' disability activism, this performance sees countryside and concrete collide in a cross-cultural cauldron of sound and vision.

Welsh, English and Brazilian Portuguese

£15 / £9

50 munud | minutes

14+ Oed | Age: 14+

BSL Tony Evans

AD Alastair Sill

Mae Skin, Muscle and Bone wedi ei gomisiynu gan Unlimited International Partner Award 2023 oedd yn bosibl diolch i gyllid gan y British Council.

An Unlimited International Partner Award 2023 commission made possible thanks to funding from British Council.



# UNDRESSED

Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru
Weston Studio, Wales Millennium Centre

4 Gorffennaf | July, 8pm

tanzbar_bremen

Beth mae'n ei olygu i gamu ar lwyfan, ac felly i mewn i'r byd? Beth ydw i'n barod i'w ddangos? Mae Undressed yn cynnwys dod at ei gilydd, aildrefnu a gwahanu yn gyson, sy'n cael ei gyfleu trwy ddawns, symudiadau'r corff, anadlu, cerddoriaeth a thawelwch ac yn ymdopi'n llwyr heb iaith lafar.

What does it mean to enter a stage and thus the world? What am I prepared to show? Undressed consists of a constant coming together, reorganising and detaching, told through dance, body, movement, breathing, music and silence and manages entirely without spoken language.

£15 / £9

55 munud | minutes

Oed | Age: 16+

Ellen Groves

Noethni gwrywaidd llawn, noethni benywaidd rhannol.

Contains full frontal male nudity, partial female nudity.





*"A sensitive dance piece about roles and commonalities at the core of being human"*

Martina Burandt

# REQUIEM

Chapter

4 - 6 Gorffennaf | July, 8pm, 6 Gorffennaf | July, 2pm

Karol Cysewski mewn cydweithrediad â | in association with Hijinx & Chapter

*"Risk of death from COVID-19 between Jan 24 and Nov 30, 2020 [...] was 3.1 times greater for men with disabilities and 3.5 times greater for women with disabilities than for men and women without disabilities"*

The Lancet



Requiem dawns-theatr sy'n archwilio'r bywydau gwirioneddol tu ôl i'r ystadegyn trawiadol hwn, yn trafod effaith trychinebus anghyfartaledd iechyd, ac yn gofyn pam bod y gwahaniaeth hwn yn cyrraedd hyd yn oed y tu hwnt i farwolaeth?

A dance-theatre requiem that explores the real lives behind this shocking statistic, examines the devastating impact of health inequality, and asks why does this disparity reach even beyond death?

£15 / £13

70 munud | minutes

14+ Oed | Age: 14+

AD Beth House
5 Gorffennaf | July, 8pm



# CHOO CHOO! (OR... HAVE YOU EVER THOUGHT ABOUT [redacted]? (COS I HAVE))

Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru | Weston Studio, Wales Millennium Centre

5 Gorffennaf | July, 8pm

StammerMouth

£15 / £9

60 munud | minutes

14+ Oed | Age: 14+

BSL Laura Goulden

AD Integredig | Integrated

Beth os wyt ti'n brifo Duncan? Beth os wnes di? Dwi'n siŵr y gallet ti. Dwi'n siŵr y gallet ti wneud. Dwi'n siŵr y byddi di.

Golwg drasig-gomedïol ar anhwylder gorfodaeth obsesiynol, yn ddoniol iawn ac yn emosiynol iawn i'r un graddau.

What if you hurt Duncan? What if you did? I bet you could. I bet you could do it. I bet you will.

A tragi-comic insight into obsessive compulsive disorder, in equal measures very funny and profoundly moving.



★★★★ *"An hour full of humour, heartfelt fun, and the best portrayal of OCD I've ever seen in a theatre production."*

Neurodiverse Review

Iaith gref, goleuadau sy'n fflachio. Cyfeiriadau at: rhyw, marwolaeth, halogiad (contamination), trais, meddyliau ymwthiol.

Contains strong language, flashing lights. References to sex, death, contamination, violence, intrusive thoughts.

# C'EST BEAU!

Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru
Weston Studio, Wales Millennium Centre

6 Gorffennaf | July, 8pm

Compagnie DK-BEL

O fan cychwyn syniad y bardd Charles Baudelaire bod Harddwch yn gysylltiedig â'r bisâr, y rhyfedd, anhrefn, â phoen a pha mor fregus yw bodolaeth, mae C'est BEAU! yn archwilio sut y gall harddwch mewn gwirionedd fod yn gyfrwng rhwng emosiwn personol ac ar y cyd a hyd yn oed emosiwn cyffredinol.

From a starting point of poet Charles Baudelaire's notion of Beauty as linked to the bizarre, to strangeness, to chaos, to pain and the fragility of beings, C'est BEAU! explores how beauty can actually be a conduit between personal and collective and even universal emotion.

£15 / £9

60 munud | minutes

Oed | Age: 14+

Alastair Sill



CABARET

Canolfan Mileniwm Cymru
Wales Millennium Centre

Mae'r drysau yn agor awr cyn i'r perfformiad ddechrau, er mwyn i chi ddod o hyd i fwrdd, cwrdd â'ch ffrindiau a chael diod o'n bar Cabaret.

Doors open 1 hour before the performance starts, so you can find a table, catch up with friends and grab a drink from our Cabaret bar.

# NOSON GOMEDI | COMEDY NIGHT



4 Gorffennaf | July, 9.30pm

Juliana Heng

Mike Cotayo
Brian Johnson

Dave Munro

Kate E A Evans

Yn llawn i'r ymylon o dalent niwrowahanol o Gymru a thu hwnt, wedi ei guradu a'i gyflwyno gan Artist Cysylltiol Hijinx, Richard Newnham. Ymunwch â ni i chwerthin nes bydd eich ochrau'n brifo!

Jam-packed with neurodiverse talent from Wales and beyond, curated and compèred by Hijinx's Associate Artist, Richard Newnham. Join us to laugh 'til your sides hurt!

£5

90 munud | minutes
cynnwys egwyl | inc. interval

16+ Oed | Age: 16+

BSL Sami Dunn

Iaith gref | Contains strong language

# UNTIED



5 Gorffennaf | July, 9.30pm

House of Deviant, Fflamingo CiC

Yr House of Deviant yw criw drag anabledd dysgu cyntaf Cymru a'r unig un hefyd. Croeso i deyrnas lle mae terfynau'n cael eu chwalu, a'r unig reol yw rhyddhau eich gwyredd mewnol!

The House of Deviant is Wales's first and only learning disabled drag troupe. Welcome to a realm where boundaries are shattered, and the only rule is to unleash your inner deviant!

£8 / £5 | 60 munud | minutes | 16+ Oed | Age: 16+ | BSL Claire Anderson

Iaith gref | Contains strong language

# PARTI GŴYL | FESTIVAL PARTY



6 Gorffennaf | July, 9.30pm

Vaguely Artistic, Hijinx

Bydd band ffync, pync, pop, roc a'r blws mewnol, cynhwysol Hijinx, Vaguely Artistic, yn codi'r to unwaith eto ym mharti gŵyl chwedlonol Gŵyl Undod!

Hijinx's in-house and inclusive funk, punk, pop, rock and blues band Vaguely Artistic will be raising the roof once again at Unity's legendary festival party!

£8 / £5 | 60 munud | minutes | Oed | Age: Pawb! | All!* | BSL Sami Dunn

* Rhaid i bobl o dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn 18 oed a throsodd
Under 16s must be accompanied by an adult aged 18 or over

Iaith gref | Contains strong language

# THEATR STRYD AM DDIM
# FREE STREET THEATRE

Yn ac o gwmpas Canolfan Mileniwm Cymru, gweler y map t20
In and around Wales Millennium Centre, see map p20

6 + 7 Gorffennaf | July

Amserlen ar y tudalennau ôl a pherfformiadau BSL a Sain Ddisgrifio.
See back pages for schedule inc. BSL and AD performances.

BSL AD

## THE AIR BETWEEN US



Chloe Loftus & Rodney Bell

Digwyddiad dawns awyr difyr yn dathlu cydraddoldeb a chysylltiad.

A captivating aerial dance event celebrating equality and connection.

## STEAMPLANT MOVEMENT



Shedan Theatre

Danza Mobile

Mae chwech o gymeriadau swreal wedi goroesi'r Apocalyps ac yn awr yn gorymdeithio trwy ddinasoedd – dilynwch y sioe orymdaith hardd hon tuag at fywyd newydd yn llawn gobaith.

Six characters have survived the Apocalypse and now march through cities – follow this beautiful parade show towards a new life filled with hope.



**Tîm hygyrchedd theatr stryd**
**Street theatre access team**

Miriam Grimshaw BSL

Alastair Sill AD

Jana Bennett-Holesworth AD



## WE HAVE TO TALK
## HEM DE PARLAR

Cía. Vero Cendoya



Sioe stryd dawns-theatr ingol a ffraeth am berthnasau a gwrthdaro mewn teuluoedd, yn cael ei hadrodd gyda thrac sain o ddeialogau sinematig.

A poignant and witty dance-theatre street show about family relationships and their conflicts, told against a soundtrack of cinematic dialogues.

## FRESTA POÉTICA



Dança sem Fronteiras

Yn chwareus a difyr, mae Fresta Poética yn gwneud symudiadau, ystumiau a dawnsiau bach pob corff yn weladwy, a gallu'r corff yng nghyswllt ei amgylchedd.

Playful and intriguing, Fresta Poética makes visible the small dances, gestures and motions of all bodies, and the body's abilities in relation to the surroundings.

**REALIZAÇÃO**

FUNDAÇÃO NACIONAL DE ARTES funarte · MINISTÉRIO DA CULTURA · GOVERNO FEDERAL BRASIL UNIÃO E RECONSTRUÇÃO

# THEATR STRYD AM DDIM
# FREE STREET THEATRE

Yn ac o gwmpas Canolfan Mileniwm Cymru, gweler y map t20
In and around Wales Millennium Centre, see map p20

6 + 7 Gorffennaf | July

Amserlen ar y tudalennau ôl a pherfformiadau BSL a Sain Ddisgrifio.
See back pages for schedule inc. BSL and AD performances.

BSL AD

## POP UP PIRATES



EGO Arts

Mae Môr Ladron Bae Caerdydd wedi glanio ac maen nhw'n llwglyd. Ymunwch yn yr helfa!

The Pirates of Cardiff Bay have docked and they're starvin'. Swash your buckle, shiver your timbers and join the quest!

## ARNASA TXIXI



Organik Dantza

Allwch chi ddim stopio anadlu, hyd yn oed os byddwch chi eisiau, dim am eiliad. Teithiwch trwy'r holl deimladau gwahanol iawn y mae anadlu yn eu creu ynom ni.

You can't stop breathing, even if you want to, not even for a moment. Travel through all the very different sensations that breathing provokes in us.



## THE CHAMBERMAIDS



Blaumeier-Atelier

Mae morynion clên Blaumeier yn gofalu am lanweithdra a thaclusrwydd, wrth gwrs, y golch y mae'n rhaid ei sychu, ei droi allan a'i blygu – allwch chi eu helpu?

Blaumeier's sweet ladies take care of cleanliness and tidiness and, of course, the laundry which must be dried, turned out and folded – can you help them?

## LA HERMOSA CONVERSACIÓN DE LAS MANOS



Danza Mobile

Mae'r darn emosiynol hwn yn chwalu rhannau a rheolau dawns traddodiadol gyda phartneriaid gan ddathlu cyfnewid rhythmau, camau a'r angerdd am ddawnsio gyda phobl eraill. Ond a all y dawnswyr gadw cyswllt corfforol i gynnal 'sgwrs hardd y dwylo'?

This evocative piece disrupts traditional partnered dance roles and rules while celebrating an exchange of rhythms, steps and the passion for dancing with other people. But can the dancers stay in physical contact to maintain 'the beautiful conversation of hands'?

# THEATR STRYD AM DDIM
# FREE STREET THEATRE


Yn ac o gwmpas Canolfan Mileniwm Cymru, gweler y map t20
In and around Wales Millennium Centre, see map p20

6 + 7 Gorffennaf | July

Amserlen ar y tudalennau ôl a pherfformiadau BSL a Sain Ddisgrifio.
See back pages for schedule inc. BSL and AD performances.

BSL AD

## ENTER THE ROBOTS



freedom_naruk

Hijinx

tanzbar_bremen

“Helo Fodau Dynol. Croeso i’ch dyfodol. Ymlaciwch. Ni yw’r Robotiaid. Fe wnawn ni ofalu am bopeth o hyn ymlaen.”

Ariennir y prosiect hwn gan Cultural Bridge.

“Hello Humans. Welcome to your future. Relax. We are the Robots. We will take it from here.”

This project is funded by Cultural Bridge.

## Y GWIR | TRUTH



Hijinx

Ramshacklicious

Mae’r chwyldro yn cyrraedd – yn llawn gobaith, yn ffyrnig o ddoniol ac ar ymgyrch i amharu ar y norm. Mae Y Gwir – Truth yn alwad ar i ni weithredu. A yw’n bryd i chi gael eich rhyddhau?

The rebellion arrive – full of hope, fiercely comic and on a mission to disrupt the public norm. Y Gwir – Truth is a gentle call to action. Is it time for you to be set free?



## BANKSY’S ARK



Odyssey, Hijinx

Grŵp theatr cymunedol cynhwysol Hijinx yn cynnwys cymysgedd o actorion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth, ac actorion niwronodweddiadol sy’n perfformio gyda’i gilydd fel partneriaid cyfartal. Ysbrydolwyd perfformiad Undod Odyssey gan yr artist Banksy.

Hijinx’s inclusive community theatre group features a mixture of actors with learning disabilities and/or autism, and neurotypical actors who perform together as equal partners. Odyssey’s Unity performance is inspired by artist Banksy.

## BLANK CANVAS?



Telemachus, Hijinx

Mae grŵp cynhwysol Hijinx ar gyfer pobl ifanc gydag a heb anableddau dysgu sy’n fentrus ac wrth eu bodd yn creu a pherfformio. Ysbrydolwyd perfformiad Undod Telemachus gan yr artist Vincent Van Gogh.

Hijinx’s inclusive group is for young people with and without learning disabilities who are adventurous, and love to create and perform. Telemachus’ Unity performance is inspired by artist Vincent Van Gogh.

# UNITY EXPANDED

**'Creating the Spectacle!'**

**Turbulence: Jamais Vu**

**Notes on Blindness**

Bocs, Canolfan Mileniwm Cymru | Wales Millennium Centre

Bob dydd tan 7 Gorffennaf
On daily until 7 July



Hawlfraint | Copyright: We Are Freewheeling Ltd. Artist: Sue Austin. Llun | Photo: Norman Lomax.

Arddangosfa am ddim o dri gwaith gan artistiaid a chrewyr anabl yn gweithio mewn technoleg drochol. Cyd-guradwyd Ehangu Undod gan Banel Hijinx sy'n cynnwys saith o gynrychiolwyr o Academïau Hijinx sy'n rhoi hyfforddiant perfformio proffesiynol i actorion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.

A free exhibition of three works by disabled artists and creators working in immersive technology. Unity Expanded has been co-curated by the Hijinx Panel, which is made up of seven learning disabled and/or autistic actors from the Hijinx Academies.



# PAWB





Pawb yw enw gweithgaredd cymunedol Hijinx ac mae'n rhoi cyfleoedd creadigol i unrhyw un sydd am berfformio, beth bynnag yw ei brofiad neu allu. Ar gyfer Gŵyl Undod 2024, mae Pawb wedi dewis thema 'Artistiaid'. Edrychwch pa artistiaid y mae pob grŵp Pawb wedi bod yn edrych arnyn nhw ac yna ewch i'n gwefan ar gyfer fideo arbennig tu ôl y llenni Undod Pawb!

Pawb is the name for Hijinx's community activity and provides creative opportunities for anyone who wants to perform, regardless of ability or experience. For Unity Festival 2024, Pawb have chosen the theme of 'Artists'. Check out which artists each Pawb group have been looking at and then visit our website for a special behind the scenes Unity Pawb video!

Vaguely Artistic – Frida Kahlo (t | p 11)

Odyssey – Banksy (t | p17)

Telemachus – Vincent Van Gogh (t | p17)


Drama Foundations – Pablo Picasso & Kara Walker

Pathways – Tracey Emin

# CELF GYHOEDDUS | PUBLIC ART

Er mwyn cyd-fynd â Gŵyl Undod yng Nghaerdydd eleni, bydd mannau celf cyhoeddus Canolfan Mileniwm Cymru yn llawn o waith gan artistiaid sy'n ystyried eu hunain yn anabl a/neu niwrowahanol ac a ddewiswyd gan Banel Hijinx. Ewch i far Ffwrnais i fwynhau – gwaith collage Linda J Richards a ysbrydolwyd gan chwedlau'r tylwyth teg a ffotograffiaeth adar Mark Brinkworth, yn ogystal â darnau gan Donna Brazier, Harri Hampson, Neil Davis a James Wilkinson..

To complement Unity Festival in Cardiff this year, Wales Millennium Centre's public art spaces will be filled with exhibits of work by artists who identify as disabled and/or neurodivergent and selected by the Hijinx Panel. Visit Ffwrnais bar to enjoy – Linda J Richards' collage work inspired by fairy tales and Mark Brinkworth's bird photography, as well as pieces from Donna Brazier, Harri Hampson, Neil Davis and James Wilkinson.



Map Bae Caerdydd
Cardiff Bay Map
Parcio Hygyrch
Accessible Parking
Toiledau Hygyrch
Accessible Toilets
Dolen Clywed
Hearing Loop
Man Gwybodaeth
Info Point
Ardal Ymlacio
Chill Out Area
Man Gwyrdd agosaf
Nearest Greenspace
Cysylltiadau Trafnidiaeth
Transport Links
Dŵr i Ail-lenwi
Water Refill Station
Bae Caerdydd
Cardiff Bay
Canolfan y Ddraig Goch
Red Dragon Centre
A4232
Maes Parcio Q-Park
Q-Park
RHODFA LLOYD GEORGE
LLOYD GEORGE AVENUE
PLAS BUTE
BUTE PLACE
STRYD BUTE
BUTE STREET
STRYD JAMES
JAMES STREET
Weston,
Cabaret,
Glanfa, Bocs
CREV·GWIR IN·THESE·STONES
FEL GWYDR·HORIZONS
OF WR NAIS·AWEN·SING
Canolfan Mileniwm Cymru
Wales Millennium Centre
Roald Dahl
Plas
Gŵyl Bwyd a Diod
Food & Drink Festival
Llwyfan 1
Stage 1
Walkabout
Performance
Cei'r Fôr-forwyn
Mermaid Quay
Y Pierhead
The Pierhead
Y Senedd
The Senedd
Llwyfan 2
Stage 2
Maes Parcio Cei'r Fôr-forwyn
Mermaid Quay Car Park
STRYD STUART
STUART ST




Map Caerdydd
Cardiff Map
Parcio Hygyrch
Accessible Parking
Toiledau Hygyrch
Accessible Toilets
Dolen Clywed
Hearing Loop
Man Gwybodaeth
Info Point
Ardal Ymlacio
Chill Out Area
Man Gwyrdd agosaf
Nearest Greenspace
Cysylltiadau Trafnidiaeth
Transport Links
CHAPTER
Chapter
Parc Bute
Bute Park
Caffi Summerhouse
Summerhouse cafe
Castell Caerdydd
Cardiff Castle
Gorsaf Caerdydd Heol y Frenhines
Cardiff Queen Street
HEOL DDWYREINIOL Y BONT-FAEN
COWBRIDGE ROAD EAST
Eglwys Sant Ioan
Church of Saint John
Yr Ais
The Hayes
Stadiwm y Principality
Principality Stadium
Gorsaf Parc Ninian
Ninian Park station
Gorsaf Caerdydd Canolog
Cardiff Central station
Stadiwm Dinas Caerdydd
Cardiff City Stadium
Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CREV·GWIR IN·THESE·STONES
FEL GWYDR·HORIZONS
OF WR NAIS·AWEN·SING
Canolfan Mileniwm Cymru
Wales Millennium Centre
Eglwys Norwyaidd
Norwegian Church

# AMSERLEN | SCHEDULE

| Dydd Mercher 3 Gorffennaf \| Wed 3 Jul | | | £ | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8pm | Skin, Muscle & Bone | Stiwdio Weston Studio, WMC | £15/9 | BSL AD | 2 |
| **Dydd Iau 4 Gorffennaf \| Thu 4 Jul** | | | | | |
| 8pm | UNDRESSED | Stiwdio Weston Studio, WMC | £15/9 | AD | 4 |
| 8pm | Requiem | Chapter | £15/13 | | 6 |
| 9.30pm | Comedi \| Comedy | Cabaret, WMC | £5 | BSL | 10 |
| **Dydd Gwener 5 Gorffennaf \| Fri 5 Jul** | | | | | |
| 8pm | Requiem | Chapter | £15/13 | AD | 6 |
| 8pm | CHOO CHOO! | Stiwdio Weston Studio, WMC | £15/9 | BSL AD | 7 |
| 9.30pm | House of Deviant | Cabaret, WMC | £8/5 | BSL | 11 |
| **Dydd Sadwrn 6 Gorffennaf \| Sat 6 Jul** | | | | | |
| 12pm | La Hermosa | Llwyfan \| Stage 1 | ● | AD | 15 |
| 12.15pm | Banksy's Ark | Glanfa, WMC | ● | AD | 17 |
| 12.30pm | ARNASA TXIKI | Llwyfan \| Stage 1 | ● | AD | 14 |
| 12.45pm | Pop-Up Pirates | Llwyfan \| Stage 2 | ● | | 14 |
| 1pm | Enter the Robots | Glanfa, WMC | ● | | 16 |
| 1pm | Fresta Poética | Llwyfan \| Stage 1 | ● | BSL AD | 13 |
| 1.30pm | The Chambermaids | Llwyfan \| Stage 2 | ● | | 15 |
| 1.45pm | The Air Between Us | Glanfa, WMC | ● | | 12 |
| 2pm | We Have to Talk | Llwyfan \| Stage 1 | ● | BSL AD | 13 |
| 2pm | Requiem | Chapter | £15/13 | | 6 |
| 2.45pm | Steamplant Movement | ● | ● | AD | 12 |
| 3.15pm | Banksy's Ark | Glanfa, WMC | ● | | 17 |
| 3.15pm | Truth | Llwyfan \| Stage 1 | ● | | 16 |
| 4pm | ARNASA TXIKI | Llwyfan \| Stage 1 | ● | | 14 |
| 4pm | Pop-Up Pirates | Llwyfan \| Stage 2 | ● | BSL AD | 14 |
| 4.30pm | The Air Between Us | Glanfa, WMC | ● | | 12 |
| 4.30pm | Fresta Poética | Llwyfan \| Stage 1 | ● | | 13 |
| 4.45pm | The Chambermaids | Llwyfan \| Stage 2 | ● | AD | 15 |
| 5.30pm | Enter the Robots | Glanfa, WMC | ● | | 16 |
| 5.30pm | Steamplant Movement | ● | ● | | 12 |
| 6pm | Y Gwir \| Truth | Llwyfan \| Stage 1 | ● | AD | 16 |
| 8pm | Requiem | Chapter | £15/13 | | 6 |
| 8pm | C'est BEAU! | Stiwdio Weston Studio, WMC | £15/9 | AD | 8 |
| 9.30pm | Parti Gŵyl \| Festival Party | Cabaret, WMC | £8/5 | BSL | 11 |
| **Dydd Sul 7 Gorffennaf \| Sun 7 Jul** | | | | | |
| 12pm | Blank Canvas? | Glanfa, WMC | ● | | 17 |
| 12pm | Y Gwir \| Truth | Llwyfan \| Stage 1 | ● | | 16 |
| 12.45pm | ARNASA TXIKI | Llwyfan \| Stage 1 | ● | | 14 |
| 12.45pm | Pop-Up Pirates | Llwyfan \| Stage 2 | ● | | 14 |
| 1.15pm | Enter the Robots | Glanfa, WMC | ● | BSL | 16 |
| 1.15pm | Fresta Poética | Llwyfan \| Stage 1 | ● | | 13 |
| 1.30pm | The Chambermaids | Llwyfan \| Stage 2 | ● | | 15 |
| 2.15pm | Steamplant Movement | ● | ● | | 12 |
| 2.30pm | The Air Between Us | Glanfa, WMC | ● | AD | 12 |
| 2.45pm | We Have to Talk | Llwyfan \| Stage 1 | ● | BSL | 13 |
| 3.30pm | La Hermosa | Llwyfan \| Stage 1 | ● | | 15 |
| 3.45pm | Blank Canvas? | Glanfa, WMC | ● | BSL AD | 17 |
| 4pm | ARNASA TXIKI | Llwyfan \| Stage 1 | ● | | 14 |
| 4pm | Pop-Up Pirates | Llwyfan \| Stage 2 | ● | | 14 |
| 4.30pm | Y Gwir \| Truth | Llwyfan \| Stage 1 | ● | AD | 16 |
| 5pm | The Air Between Us | Glanfa, WMC | ● | | 12 |
| 5pm | The Chambermaids | Llwyfan \| Stage 2 | ● | | 15 |
| 5.15pm | Steamplant Movement | ● | ● | | 12 |
| 5.30pm | Enter the Robots | Glanfa, WMC | ● | BSL AD | 16 |
| 5.45pm | Fresta Poética | Llwyfan \| Stage 1 | ● | | 13 |

- ● Taith o Ganolfan Mileniwm Cymru i Lwyfan 2 | Walkabout from WMC to Stage 2
- ● Am ddim | Free

**UNITY EXPANDED Bocs** — **Ymlaen yn ddyddiol o 11am hyd 7 Gorffennaf / On daily from 11am until 7 July**

Gellir cael gwybodaeth am hygyrchedd ar-lein
More access information can be found online

# Hijinx
## Gŵyl Undod
## Unity Festival

**Gallwch ddangos eich cefnogaeth i Hijinx yn ystod Gŵyl Undod trwy gyfrannu trwy neges testun.** Anfonwch neges testun **UNITY** ac yna swm eich rhodd at **70460** (e.e. UNITY5 i roi £5). Bydd eich cyfraniad yn cefnogi cenhadaeth Hijinx i arloesi, hyrwyddo a chynhyrchu cyfleoedd i bobl yng Nghymru sydd ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth. Diolch!

*Bydd hyn yn costio swm y rhodd ac un neges safonol ar y rhwydwaith.*

**You can show your support for Hijinx during the Unity Festival by donating via text.** Text **UNITY** followed by your donation amount to **70460** (e.g. UNITY5 to donate £5). Your donation will support Hijinx's mission to pioneer, promote and produce opportunities for people in Wales with learning disabilities and/or autism. Diolch!

*This will cost the donation amount plus one standard network rate message.*




hijinx.org.uk

Mapiau a darluniau Undod gan Matt Joyce | Maps and Unity illustrations by Matt Joyce